







# PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMRU

# DOGFEN SEFYDLU

South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru


GWASANAETH TÂN AC ACHUB Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales FIRE AND RESCUE SERVICE

Gwasanaeth Tân ac Achub Fire and Rescue Service

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Datganiad Cenhadaeth | 4 |
| Datganiad Gweledigaeth | 4 |
| Nodau | 5 |
| Sut mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi ei drefnu | 6 |
| Llwyddiannau | 8 |
| Cysylltiadau | 9 |
| Siart Trefniadaeth y Pwyllgor Materion Cenedlaethol | 11 |

# Cyflwyniad

Cafodd Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ei sefydlu yn 2012, a hynny er mwyn hyrwyddo a gwella cydweithio, darparu gwasanaethau a chael gwelliannau parhaus i wasanaethau.

Cafodd y PMC ei sefydlu gyda:

- Nodau ac amcanion clir
- Pwerau sy'n briodol i'r nodau a'r amcanion hynny
- Y bwriad i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ateb y gofynion ymhob maes allweddol; a
- Gallu digonol – yr anoddau a'r arbenigedd i gyflwyno'r cynlluniau hynny wedi iddynt gael eu datblygu.

Y PMC fydd Awdurdodau Tân ac Achub cyfunol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru.

Bydd y PMC yn gweithio i ddangos tystiolaeth i ateb y gofynion ymhob un o'r meysydd cydweithio a nodir isod:

- Integreiddio gwasanaethau cyffredin ac arbenigol (gan gynnwys Cludiant a TGCh)
- Cydnerthu effeithiol a chynlluniau gweithredol
- Swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer adnoddau dynol
- Ffordd genedlaethol o drin hyfforddiant a datblygiad
- Trefniadau cenedlaethol o ran rheoli
- Trefniadau cenedlaethol cydweithredol ar gyfer caffael

Bydd aelodau arweiniol ac uwch ymgynghorwyr yn cael eu penodi ar gyfer pob un o'r themâu gwaith allweddol. Sef:

| | | Aelod Arweiniol | Ymgynghorydd Arweiniol |
|---|---|---|---|
| 1. | Integreiddio gwasanaethau cyffredin ac arbenigol (gan gynnwys Cludiant a TGCh) | xxxxx | xxxxx |
| 2. | Cydnerthu effeithiol a chynlluniau gweithredol | xxxxx | xxxxx |
| 3. | Swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer adnoddau dynol | xxxxx | xxxxx |
| 4. | Ffordd genedlaethol o drin hyfforddiant a datblygiad | xxxxx | xxxxx |
| 5. | Trefniadau cenedlaethol o ran rheoli | xxxxx | xxxxx |
| 6. | Trefniadau cenedlaethol cydweithredol ar gyfer caffael | xxxxx | xxxxx |

4

## Datganiad Cenhadaeth

Bydd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC), heb beryglu ystyriaethau lleol a hunaniaeth unigol, yn gwneud y mwyaf o weithio ar y cyd er mwyn adnabod arbedion, effeithlonrwydd a manteisio economaidd, gan wneud cymunedau Cymru yn fwy diogel a gallu cwrdd â'r heriau ecomaidd presennol trwy ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol.

## Datganiad Cenhadaeth

Cael y manteision sy'n deillio o weithio ar y cyd, a chyflawni'r gwir botensial, a hynny er mwyn gwella cydnerthedd, effeithiolrwydd a diogelwch y gymuned yng Nghymru, a mantoli cyllidebau lleol ar yr un pryd.

# Nodau

Nodau'r PMC yw datblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer cyflwyno gwaith strategol a chydlynedig ar y cyd. Bydd y rhain yn ymgorffori'r bwriad i gyflwyno canlyniadau Cenedlaethol heb beryglu annibyniaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub cyfansoddol i wneud penderfyniadau'n lleol a chwrdd ag anghenion lleol.

Bydd rhaglen y PMC yn cefnogi'r agenda ar gyfer cydweithio a gwella trwy gyflawni'r amcanion i gefnogi gwelliannau mewn darparu gwasanaeth, a bydd hynny'n cael ei ddatblygu trwy flaen-gynllun gwaith strwythuredig. Penderfynir ar y meysydd blaenoriaeth yn dilyn sefydlu'r PMC.

1. Cyflwyno cyfundrefn strwythuredig a threfnus, a fydd yn:

Crynhoi ac yn hyrwyddo ffordd safonol o drin rheoli rhaglenni o fewn y PMC, a hynny er mwyn hwyluso cyflwyno ffordd gyson, archwiladwy a strwythuredig o ddatblygu rhaglen o weithgareddau.

2. Penodi a chynnal safle Cydlynydd Rhaglenni er mwyn:

   a) Sefydlu mecanweithiau rheoli strwythuredig.

   b) Cyflwyno a chynnal proses archwilio strategol.

   c) Mesur cynnydd y PMC mewn perthynas ag amcanion a cynlluniau rhaglenni.

   ch) Rhoi arferion da ymhob maes prosiect.

   d) Sicrhau "dim colli cyfleoedd", a thrwy hynny wneud y gorau o gyfleoed

   dd) Cynnal a galluogi rheolaeth risg ar draws rhaglenni.

   e) Galluogi dadansoddiad adnoddau/cost ar draws rhaglenni.

   f) Canoli rheoolaeth o'r broses ymgynghori, a thrywyddau archwilio dilynol trwy safoni'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu safbwyntiau alodau etholedig, Swyddogion a'u hymgynghorwyr, boed nhw'n gyfreithiol, ariannol neu wleidyddol, fel bod pawb sy'n cymryd rhan yn ymwybodol o faterion y llall mewn perthynas â'r busnes dan sylw.

3. Cynnal archwiliad a chadw rheolaeth ar yr holl prosiectau cyfredol ac yn yr arfaeth o fewn yr Awdurdodau Tân ac Achub cyfansoddol, sy'n gallu hwyluso cyd-fanteision, a'u cysoni a'u rheoli o fewn un rhaglen Genedlaethol.

4. Bydd swydd y Cydlynydd Rhaglenni yn un wedi ei secondio o un o'r tri Gwasanaeth. Bydd y cyflog a'r argostau ar gyfer y swydd hon yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y tri Gwasanaeth.

6

# Sut mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi ei drefnu

## 1. Cyfansoddiad y Pwyllgor

Mae'r PMC wedi ei drefnu'n ffurfiol trwy Bwyllgor yn cynnwys Aelodau Etholedig a Swyddogion o bob un o'r Awdurdodau Tân ac Achub cyfansoddol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi ei sefydlu fel trefniadau gwirfoddol strwythuredig, yn hytrach nag yn gyfreithiol dan y Ddeddf Llywodraeth Leol neu'r Gorchymyn Cyfuno.

Bydd swydd y Cadeirydd yn cylchdroi ddwywaith y flwyddyn, gyda'r newid yn digwydd yn dilyn cyfarfod cyffredinol blynyddol y Pwyllgor Materion Cenedlaethol ym mis Gorffennaf.

Aelodaeth y Pwyllgor fydd:

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Cadeirydd** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| **Cadeirydd** | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| **Dirprwy Gadeirydd** | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Dirprwy Gadeirydd** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| **Dirprwy Gadeirydd** | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| **Prif Swyddog Tân** | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Prif Swyddog Tân** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| **Prif Swyddog Tân** | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| **Dirprwy Brif Swyddog Tân** | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Dirprwy Brif Swyddog Tân** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| **Dirprwy Brif Swyddog Tân** | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |

Cynhelir cyfarfodydd bob dau fis mewn lleoliad canolog yn y canolbarth, gydag agendâu strwythuredig, papurau a chofnodion. Bydd yr agendâu, y papurau a'r cofnodion yn cael eu llunio'n ddwyieithog.

Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Darperir cyfleusterau cyfieithu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Darperir trefniadau'r cyfarfodydd, gan gynnwys lleoliadau, gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## 2. Trefnu Rhaglen

Sefydlir blaen-raglen waith i ymorol ar y meysydd cydweithio allweddol a nodir gan y PMC.

Neilltuir pob prosiect allweddol i Aelod arweiniol o'r Awdurdod Tân ac Achub, gyda Swyddog o'r Awdurdod hwnnw wedi ei benodi'n Uwch Ymgynghorydd. Bydd swyddogion sy'n cynghori aelodau arweiniol yn aelodau o'r PMC. Hefyd, bydd Rheolwr Prosiect gan bob prosiect allweddol.

## 3. Cydlynu Rhaglen

Bydd y Cydlynydd Rhaglenni wedi ei secondio i hwyluso'r PMC, a bydd yn gyfrifol am gydlyniad y rhaglen o weithgareddau a amlinellir yn y blaengynllun gwaith o ddydd i ddydd. Bydd y sawl sydd wedi ei secondio yn parhau i gael ei gyflogi gan ei H/awdurdod, gyda'r cyflog a'r argostau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y tri Gwasanaeth.

## 4. Trefnu Prosiect

Bydd un o raglenni'r PMC yn cynnwys nifer o brosiectau cyfansoddol wedi eu cynllunio i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau, effeithlonrwydd gwasanaethau a gwell cydweithio. Caiff y prosiectau hyn eu rheoli mewn modd cyson ac unffurf.

## 5. Papurau Pwyllgorau

Er cysoneb, bydd y broses agendâu, papurau a chofnodion a ddefnyddir gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael eu defnyddio gan y PMC. Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth. Bydd yr holl bapurau a chofnodion ayyb yn cael eu llunio'n ddwyieithog. Bydd cofnodion cymeradwy'r PMC yn cael eu hadrodd yn ôl wrth yr Awdurdodau Tân ac Achub unigol yn ystod eu prif gyfarfod.

## 6. Proses Ymgynghorol Annibynnol

Bydd cyngor am unrhyw fater yn dod o ffynhonnell briodol fel y bo'r angen. Petai unrhyw anghytundeb sylweddol am unrhyw fater, dilynir system bleidleisio fwyafrifol.

## 7. Cysylltiad â CFOA (Cymru)

CFOA rhanbarth Cymru fydd un o'r cyrff a fydd yn cynnal gwaith strwythuredig ar gyfer y PMC.

8

# Llwyddiannau

## 1. Llwyddiannau generig

Gwnaed cynnydd mawr iawn ers datblygu'r materion Polisi Tân i Lywodraeth Cymru.

Sefydlwyd amgylchedd lle bo partneriaethau cydweithredol presennol yn gallu parhau, a rhai newydd yn cael eu datblygu, gyda manteision yn codi o'r cyfleoedd i rwydweithio sy'n dilyn. Bydd y PMC yn ychwanegu strwythur i'r gwaith hwn, ac yn cynorthwyo gyda gwelliannau pellach a gwneud y gorau o gyfleoedd.

## 2. Llwyddiannau penodol

Dyma grynodeb o'r llwyddiannau penodol a nodwyd:

- Eglurder o ran perchnogaeth
- Ymrwymiad i gydweithio a dulliau gweithio ar lefel genedlaethol
- Datblygu dulliau cyffredinol wedi eu seilio ar arferion da
- Sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir
- Annog rhanddeiliaid i fod yn gyfrannog
- Creu cyfleoedd i rwydweithio
- Sefydlu strwythurau cefnogol
- Sefydlu dogfennaeth gyffredin
- Mabwysiadu cyfundrefn rheoli rhaglenni
- Cyflwyno fframwaith strwythuredig ar gyfer adolygu ac adrodd

Bob blwyddyn, bydd y PMC yn dogfennu ei lwyddiannau am y flwyddyn, ac yn datblygu blaen-gynlluniau gwaith pellach.

# Cysylltiadau

Bydd pob Awdurdod Tân ac Achub cyfansoddol o fewn y Rhanbarth yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer 2012/13 a 2013/14.

| Enw | Swydd | Awdurdod | Ffôn | Ebost |
|---|---|---|---|---|
| | **Cadeirydd PMC** | | | |
| | Cadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru | | |
| | Cadeirydd | Gogledd Cymru | | |
| | Cadeirydd | De Cymru | | |
| | Dirprwy Gadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru | | |
| | Dirprwy Gadeirydd | Gogledd Cymru | | |
| | Dirprwy Gadeirydd | De Cymru | | |
| **R Smith** | Prif Swyddog Tân | Canolbarth a Gorllewin Cymru | 01267 226844 | r.smith@ mawwfire.gov.uk |
| **S A Smith** | Prif Swyddog Tân | Gogledd Cymru | 01745 535253 | simon.smith@ gwastan-gogcymru.org.uk |
| **H Jakeway** | Prif Swyddog Tân dros dro | De Cymru | 01443 232006 | h-jakeway@ southwales-fire.gov.uk |
| **P Bates** | Dirprwy Brif Swyddog Tân | Canolbarth a Gorllewin Cymru | 01267 226840 | p.bates@ mawwfire.gov.uk |
| **D Docx** | Dirprwy Brif Swyddog Tân | Gogledd Cymru | 01745 535255 | dawn.docx@ gwastan-gogcymru.org.uk |
| **S Chapman** | Dirprwy Brif Swyddog Tân dros dro | De Cymru | 01443 232007 | s-chapman@ southwales-fire.gov.uk |
| | Ysgrifenyddiaeth | De Cymru | | |
| | Gwasanaethau Cyfieithu | Gogledd Cymru | | |
| | Trefniadau cyfarfodydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru | | |


Darluniadol yw'r rhestr uchod, ac mae'n agored i newid yn dilyn yr etholiadau a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdodau Tân.

# 10

## CFOA Rhanbarth Cymru – Swyddogion Arweiniol Llif Busnes

| | Swyddog Arweiniol |
|---|---|
| **Ymateb Gweithredol – Arweinydd Strategol** | **Simon Smith** |
| Cydnerthedd | Paul Claydon |
| Gweithrediadau Technegol | Rod Hammerton |
| | |
| **Atal ac Amddiffyn – Arweinydd Strategol** | **Richard Smith** |
| Lleihau Risg Cymunedol | Chris Davies |
| | |
| **Adnoddau Dynol – Arweinydd Strategol** | **Richard Smith** |
| Datblygu Pobl a'r Sefydliad | Ruth Simmons |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Kevin Jones |
| Y Gymraeg | Gareth Griffiths |
| | |
| **Perfformiad a Gwella – Arweinydd Strategol** | **Huw Jakeway** |
| Cyllid ac Archwilio | Dawn Docx |
| Caffael | Liz Aitken |
| Rheoli Asedau | Liz Aitken |
| Ystadau | Paul Bates |
| Rheoli Perfformiad, Asesu a Gwella | Shân Morris |
| TGCh | Rod Hammerton |

# Siart Trefniadaeth y Pwyllgor Materion Cenedlaethol



South Wales
Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CYDWEITHIA TUAG AT GYMRU DIOGELACH